

Teitl Swydd: Cydlynnydd Campws Agored

Uned/Ysgol: Chwaraeon Met Caerdydd

Gradd: 4A/B

HERA: CMETS72

Pwrpas craidd y rôl

Bydd Cydlynnydd y Campws Agored yn cydweithio ag ysgolion ledled Caerdydd, yn enwedig o fewn y bwa deheuol, i nodi bylchau yn y ddarpariaeth chwaraeon a gweithgarwch corfforol a chyd-ddylunio gweithgareddau a mentrau Campws Agored wedi'u teilwra. Fel aelod annatod o'r tîm Pobl Ifanc Egnïol, bydd deiliad y swydd yn cyfrannu at strategaeth Symud Mwy o weithgarwch corfforol a chwaraeon, gan sbarduno cyfleoedd i bobl ifanc a chymunedau lleol gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol o ansawdd uchel.

Byddant yn cysylltu defnyddwyr gwasanaeth, cyrff llywodraethu cenedlaethol, ac yn cydweithio'n agos â thimau academiaidd o fewn Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd (YChGIC) i gyfoethogi profiad y myfyrwyr trwy hwyluso cyfleoedd lleoli ystyrion gyda Chwaraeon Met Caerdydd.

Cyfrifoldebau a Chyfraniadau Allweddol

- Arwain datblygiad a chyflawniad fframwaith y Campws Agored, gan gynnwys rhaglen amrywiol o weithgareddau trawsgwricwlaidd ar gyfer cyfranogwyr a myfyrwyr sy'n cyd-fynd â strategaeth Symud Mwy o weithgarwch corfforol a chwaraeon ac yn cyfrannu ati.
- Cydlynio cyfranogiad ysgolion cynradd ac uwchradd mewn gweithgareddau Campws Agored o fewn lleoliadau cwricwlaidd ac allanol, gan sicrhau cysylltiadau cryf â'r strategaeth Symud Mwy a'i nodau i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol ledled Caerdydd.
- Cyflawni mesurau llwyddiant y cytunwyd arnynt i sicrhau profiadau cadarnhaol i gyfranogwyr a myfyrwyr o fewn rhaglen y Campws Agored.
- Rheoli llinell y myfyrwyr lleoliad Campws Agored, gan sicrhau gweithrediad dyddiol llyfn ac effeithlon y rhaglenni.
- Cydweithio ag Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd (YChGIC) i gyflawni canlyniadau allweddol a osodwyd gan Grŵp Llywio'r Campws Agored.
- Cryfhau partneriaethau â Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol, ysgolion a grwpiau cymunedol i wella profiad y Campws Agored i fyfyrwyr.
- Meithrin perthnasoedd effeithiol â rhanddeiliaid mewnol, gan gynnwys YChGIC, Chwaraeon Met Caerdydd, ac ysgolion.
- Dylunio a chyflwyno rhaglenni sy'n cyd-fynd â Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) Iechyd a Llesiant, gan ymgorffori adborth gan athrawon a disgyblion i wella gwasanaethau.

- Integreiddio myfyrwyr a phrosiectau lleoliad Campws Agored i fentrau ysgolion i wella cyflwyno rhaglenni a chanlyniadau dysgu.
- Datblygu rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i fyfyrwyr i gefnogi dysgu a sicrhau cyflwyno o ansawdd uchel.
- Monitro a gwerthuso effaith rhaglenni trwy gasglu a dadansoddi data, gan gynhyrchu logiau dysgu chwarterol ar gyfer gwelliannau parhaus.
- Gweithredu fel llysgennad brand i Brifysgol Met Caerdydd, gan gynnal gwerthoedd y brifysgol a sicrhau arfer gorau ym mhob gweithgaredd.

Manyleb person

Cymwysterau hanfodol / Aelodaeth broffesiynol

- Gradd Gyffredin/Anrhydedd neu brofiad cyfatebol a gafwyd o waith o fewn datblygu cymunedol neu'r sector addysg uwch.

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Profiad profedig o reoli prosiectau a digwyddiadau o fewn chwaraeon a/neu ddatblygu cymunedol.
2. Profiad o ddatblygu a chyflwyno rhaglenni chwaraeon mewn amgylcheddau cymunedol ac ysgol.
3. Gwybodaeth am ddatblygu cwricwlwm academiaidd a'r cwricwlwm newydd i Gymru, yn enwedig o fewn Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant.
4. Profiad o gyflwyno darpariaeth gynhwysol a chefnogi anghenion amrywiol.
5. Sgiliau datblygu perthynas â rhanddeiliaid cryf, yn fewnol ac yn allanol.
6. Profiad gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol gyda ffocws ar empathi a dealltwriaeth.
7. Galluedd cryf o ran datrys problemau a meddwl yn greadigol.
8. Gwybodaeth gynhwysfawr am dirwedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol y DU, materion allweddol, a'r diwydiant datblygu chwaraeon.
9. Gallu i greu a gweithredu strategaethau marchnata a chyfathrebu i gefnogi nodau'r rhaglen.
10. Cymhwysedd wrth ddilyn polisïau iechyd a diogelwch, ysgrifennu asesiadau risg, a sicrhau cydymffurfiaeth â'r rhaglen.
11. Sgiliau cyfathrebu rhagorol, gyda gallu profedig i weithio'n annibynnol, cwrdd â therfynau amser, a chydweithio'n effeithiol o fewn tîm.
12. Gallu i flaenoriaethu llwyth gwaith trwm a monitro llwyth gwaith myfyrwyr lleoliad.

Dymunol

1. Profiad o weithio mewn Addysg Uwch.
2. Profiad o weithio gydag ysgolion academiaidd a rheoli lleoliadau myfyrwyr.
3. Hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Gofynion sgiliau Cymraeg

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac yn rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: [Lefelau sgiliau iaith Gymraeg](#). Os rhestrir sgil yn hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

Lefel iaith a disgrifydd cyffredinol	Gwrando	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	Dymunol	Dymunol	Dymunol	Dymunol
A2 - Defnyddiwr sylfaenol Yn gallu delio â gwybodaeth syml, syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol.				
B1 - Defnyddiwr canolradd Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn Gymraeg am bethau cyfarwydd a/neu waith.				
B2 - Defnyddiwr canolradd uwch Yn gallu mynegi eich hun yn Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs gyda siaradwr brodorol.				
C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.				
C2 - Prif ddefnyddiwr Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg.				

Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae'r swydd hon yn gofyn am wiriad manwl y DBS o restr gwahardd plant.

Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a manyleb y person fod yn holl gynhwysfawr.



Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cadw at ein Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob cyflogai roi sylw arbennig i'w gyfrifoldebau o dan bolisiâu a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.